# RHAGLEN MENTORA CYFOEDION MEWNGYMORTH YSGOLION



## PWY YW MEWNGYMORTH YSGOLION?

Rydym yn Wasanaeth y GIG ac yn dîm o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl, sy'n gweithio'n aml gyda staff addysg i gynnig cymorth ac arweiniad ar sut y gallant gefnogi pobl ifanc gyda'u lles emosiynol ac iechyd meddwl yn yr ysgol. Weithiau, efallai y byddwn hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr.

**Gallwch ddysgu mwy amdanon ni ar ein gwefan**

**www.cavyoungwellbeing.wales/l4vw**

*"Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn siarad â phobl." (mentor)*

## BETH YW MENTORA CYFOEDION?

Dechreuodd y rhaglen mentora cyfoedion fel menter gan ddysgwr chweched dosbarth i gyflwyno cefnogaeth gan gyfoedion yn ei hysgol. Ers hynny, mae wedi'i addasu gan ddefnyddio adnoddau gan Ganolfan Anna Freud, Chweched Dosbarth Llanilltud Fawr Fawr, a'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion. Nod y rhaglen yw meithrin perthnasoedd cefnogol rhwng dysgwyr iau a chyfoedion yn y chweched dosbarth, gan annog y menteion i wneud newidiadau bach, cadarnhaol ar gyfer eu lles.

## BETH MAE MENTOR CYFOEDION YN EI WNEUD?

Mae Mentor Cyfoedion yn berson ifanc sy'n gallu cynnig arweiniad a chefnogaeth i ddysgwr iau o fewn yr ysgol, gyda'r nod o helpu'r dysgwr i deimlo eu bod yn gysylltiedig â'r system ysgol ac yn perthyn iddi. Mae rôl mentor cyfoedion yn cynnwys darparu gwybodaeth, cefnogaeth ac anogaeth i'r menteion drwy sesiynau trefnedig yn yr ysgol.

## FEL MENTOR, BYDDWCH YN:

- Mynychu hyfforddiant a goruchwyliaeth gyda'r Gwasanaeth Mewngymorth Ysgolion
- Derbyn cefnogaeth gan aelod penodedig o staff
- Datblygu sgiliau arwain a chyfathrebu
- Ennill profiad gwerthfawr mewn rôl gefnogol
- Creu profiadau ystyrlon y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth
- Adeiladu pecyn llawn o adnoddau a syniadau i'w defnyddio



**Mae eich mewnbwn yn bwysig** – dyma eich adnodd i helpu ei lunio. Byddem wrth ein bodd yn gweithio gyda chi, ac yn clywed eich adborth, syniadau, neu unrhyw beth rydych chi'n meddwl allai ei wella ymhellach.

*"Fe wnaeth e fy helpu i ailfeddwl am yr hyn rwyf eisiau ei wneud ar ôl gadael yr ysgol a chwrs prifysgol."*
*(mentor)*

**Os yw hyn yn rhywbeth sydd o ddiddordeb i chi, siaradwch â'ch Pennaeth Blwyddyn / Cydlynydd Mentora!**